# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**10.10.25**




## Gair gan y Pennaeth - Headteacher's Greeting

Cawsom gyfle yr wythnos hon i fyfyrio ar ein ymateb i dlodi gydag ymwelwyr ar y safle ddoe yn siarad gyda plant, staff a theuluoedd. Diolch yn fawr i chi am ymateb i'r holiadur ac am roi eich amser i siarad gyda'r ymwelwyr. Rydym wedi cael adborth arbennig ac yn edrych ymlaen at gallu gwneud rhagor hefyd.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar eu llwyddiannau beicio yr wythnos hon wrth gwblhau cwrs hyfedredd seiclo. Braf eu gweld mor hyderus ar yr heol. Tro Blwyddyn 5 fydd hi yn yr Haf felly dyma apelio i bob rhiant i sicrhau bod eich plant yn hyderus gyda sgiliau seiclo cyn Blwyddyn 5 er mwyn gallu manteisio ar hyfforddiant ar yr heol. Ymarfer amdani!

Bydd wythnos nesa yn wythnos prysur yn yr ysgol. Gyda Diwrnod Su'Mae Shw'Mae dydd Mercher, cofiwch bod angen i bob plentyn ddod ag eitem i'r ysgol sydd yn dathlu eu Cymreictod nhw. Bydd hi'n ddiwrnod i hwyl Cymreig! Dydd Gwener, byddwn yn gwisgo coch er mwyn dangos ein gwrthwynebiad i hiliaeth. Bydd B6 yr Adran Saesneg ar gwrs preswyl yn **Llangrannog** wythnos nesaf – joiwch!

Yn bwysig iawn, byddwn yn cynnal **Nosweithiau Agored** yr wythnos nesaf – cyfle i bob teulu gyfarfod yn unigol ag athrawon dosbarth er mwyn trafod cynnydd a lles plant. Rydym yn disgwyl i bob teulu fynychu er mwyn gallu hybu cynnydd i bob plentyn. Os nad ydych eto wedi gwneud, cofiwch ffonio swyddfa'r ysgol i drefnu amser eich cyfarfod. Bydd **fy nrws i hefyd ar agor** y noson honno ac mae croeso cynnes i chi alw mewn i drafod unrhyw fater. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd.

✵ ✵ ✵ ✵ ✵ ✵

We had an opportunity this week to reflect on our response to poverty with visitors to school who talked to children, staff and families. Thank you very much for responding to the questionnaire and for taking the time to talk to our visitors. We have had lovely feedback and also look forward to being able to do more where we can.

Congratulations to Year 6 pupils on their cycling successes this week and for completing their cycling proficiency course. It was wonderful to see them so confident on the road. It will be Year 5's turn in the summer term and we appeal to all parents to ensure that your children are confident with cycling skills before Year 5 so that they can take advantage of on-the-road training. Time to get some practice in!

Next week will be a busy week at school. With Wednesday's Su'Mae Shw'Mae Day, we ask every child to bring an item to school that celebrates their *Cymrecitod* (Welshness). It will be a day of Welsh fun! And on Friday, don't forget to Wear Red to show our opposition to racism. Y6 pupils in 2E will be having fun on their residential course to **Llangrannog** next week – *joiwch*!

Very importantly, we will be holding **Open Evenings** next week – an opportunity for each family to meet individually with classroom teachers to discuss your child's progress and wellbeing. We expect all families to attend so that each child can promote progress for all pupils. Please call the school office to schedule your meeting. **My door will also be open** that night and I extend a warm welcome to you to call in should you like to discuss any matters. *Croeso cynnes!*

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Llun / Monday 13.10.25**
CogUrdd Blwyddyn 5 a 6

**14.10.25 & 15.10.25**
Nosweithiau Rhieni
Parents' Evenings

**Mawrth / Tuesday 14.10.25**
CogUrdd Blwyddyn 4

**Mawrth / Tuesday 14.10.25**
Taith 3C i Gastell Caerdydd
3C Trip to Cardiff Castle

**Mercher / Weds 15.10.25**
Taith Su'Mae Shw'Mae

**Mercher / Weds 15/10**
Jambori yr Urdd B3/4
Y3/4 Urdd Jambori

**Iau / Thursday 16.10.25**
Pêl-Droed Urdd
(Merched B5/6) (Year5/6 girls)

**15/10 – 17/10**
Year 6 (2E) Llangrannog
Taith Breswyl / Residential

**Iau / Thursday 23.10.25**
Gwasanaeth Dosbarth 5C
5C Class Assembly

**Gwener / Friday 24.10.25**
Diwrnod HMS
*INSET Day*

**Llun / Monday 18.11.25**
Gwiethdy Darllen i Rieni
Reading Workshop for parents

## Ymarfer Cloi'r Ysgol

Fel a nodwyd mewn ebost atoch, cynhaliwyd dril **ymarfer cloi'r ysgol (Lockdown Practice Drill)** yn yr ysgol yr wythnos hon, proses sydd yn ofynnol o bob ysgol bob blwyddyn. Bu ymateb y plant yn dda iawn. Rwyf yn rhoi gwybod ichi rhag ofn y bydd cwestiynau gan eich plant.

## Lockdown Practice

*As noted in an email, **Lockdown Practice Drill** was held at the school this week, which is a process required for all schools annually. The children responded calmly and efficiently. I am informing you in case your children have further questions.*



## Dathliad Cynhaeaf

Mae plant ar draws yr ysgol wedi bod yn ymarfer ar gyfer ein Dathliad Cynhaeaf. Eleni, bydd pob dosbarth yn perfformio caneuon i weddill plant yr ysgol. Ni fyddwn yn gwahodd teuluoedd i wylio'r dathliad eleni, ond rydym yn bwriadu gwneud fidio o'r perfformiadau i'w rhannu gyda chi.

Byddwn hefyd yn casglu eitemau ar gyfer casgliad **Banc Bwyd** fel rhan o'n dathliadau cynhaeaf. Gofynnwn i bawb, os yn bosib, ddod ag eitemau ar gyfer y Banc Bwyd, gan ddod â nhw i'r ysgol erbyn Dydd Mawrth, Hydref 21. Croesawn bob cyfraniad bach neu mawr. **Diolch** am bob cefnogaeth.

## Harvest Celebration

Children across the school have been rehearsing for our Harvest Celebration. This year, each class will be performing songs to other children across the school. Whilst be will not be inviting families to watch the celebration this year, we will be sharing videos of the class performances with you.

We will also be collecting items for the Food Bank to mark our Harvest Celebration. If possible, we would welcome a donation from all families, no matter how small. We ask that donations reach the school by Tuesday, October 21. **Diolch** for your support.

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Dydd Gwener Tachwedd 14
Dydd Gwener Tachwedd 28
Dydd Gwener Rhagfyr 12

**Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser!**

***Bike Bus: New members always welcome!***

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

Friday November 14
Friday November 28
Friday December 12






### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: [Polisi Diogelu ac Plant]

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol <u>ar unwaith</u>. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: [Safeguarding and Child Protection]

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers <u>immediately</u>. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.

## Mae'r Noson Bingo yn ôl!

Gyda Mr Cole ar y meic!

Tocynnau ar gael tan ddydd Mercher nesa. Prynwch ar iard yr ysgol bob dydd neu cysylltwch â'ch cynrychiolydd dosbarth.

## Our Bingo Night is back!

With Mr Cole on the mic!

Tickets available only until next Wednesday. Available on the schoolyard every day next week or contact your class representative.




### <u>Rags to Riches</u>

**Casgliad dillad ail-law**
**Pre-loved clothes collection**

Dydd Mawrth - Tuesday: 25/11/25

Dydd Gwener - Friday: 20/3/25

Dydd Gwener – Friday: 26/6/25

## <u>CRhA / *PTA*</u>

**05.12.25**
Ffair Nadolig / *Christmas Fayre*

**Diolch** i'r GRhA am eich gwaith caled!
*A big **diolch** to our fantastic PTA!*




Diolch to our Citizens of the Future Committee who have prepared this for us – follow the QR to see!

Next Collection:


Tuesday 21.10.25

Diolch i bwyllgor Dinasyddion y Dyfodol am baratoi'r wybodaeth yma – dilynwch y QR i weld!

Casgliad Nesaf:

Dydd Mawrth 21.10.25






## Swydd Wag Rhiant Llywodraethwr – Parent Governor Vacancy

Mae'r Llywodraethwyr yn chwarae rôl pwysig iawn ym mhob ysgol ac mae ganddynt gyfrifoldebau dros bob agwedd o fywyd ysgol. Yn Gwaelod y Garth, rydym yn ffodus o fod â Corff Llywodraethu sydd yn gefnogol ac yn fedrus. Cyn bo hir, byddwn yn **chwilio am Riant Lywodraethwr newydd**. Os oes gennych ddiddordeb neu am wybod rhagor, croeso i chi gysylltu â Mrs Sharkey i drafod.

The Governors play a very important role in every school and have responsibilities over all aspects of school life. At Gwaelod y Garth, we are fortunate to have a Governing Body that is supportive and skilled. We will soon be **looking to appoint a new Parent Governor**. If you are interested or want to know more about this role, please contact Mrs Sharkey to discuss further.

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week